Gelyn yn troi'n ffrind

Dyfalbarhad / ffyddlondeb / ymddiriedaeth

Mae rhai pobl, weithiau, yn casáu ei gilydd. Maen nhw'n ffraeo ac yn ymladd â'i gilydd. Yna'n sydyn maen nhw'n dod yn ffrindiau mawr. Mae'r stori hon yn sôn am ddyn oedd yn casáu pawb oedd yn ffrindiau i Iesu. Ond yn y diwedd fe ddaeth ef yn ffrind gorau i Iesu.

Roedd pawb yn adnabod Saul yn Jerwsalem. Roedd yn ddyn dysgedig a byddai pobl yn mynd ato i gael cyngor ganddo. Gwyddai am ddisgyblion Iesu. Ar ôl i Iesu gael ei groeshoelio roedd y disgyblion yn ddynion ofnus iawn. Ond roedden nhw'n ddynion gwahanol erbyn hyn. Roedden nhw'n addoli yn y Deml. Yn pregethu ar y strydoedd. Roedden nhw hyd yn oed yn gwella pobl oedd yn sâl.

Doedd Saul ddim yn credu bod Iesu'n Fab Duw. Roedd o'n credu mai dynion drwg oedd ei ddisgyblion. Roedd yn rhaid rhoi stop arnyn nhw. Aeth Saul a'i ffrindiau o gwmpas y ddinas i chwilio am y bobl oedd yn dilyn Iesu. Roedd rhaid eu rhoi yn y carchar. Yn wir, roedd Saul a'i ffrindiau yn gwneud gwaith da iawn.

Un diwrnod, clywodd fod dilynwyr Iesu yn ninas Damascus oedd yn bell iawn o Jerwsalem.

"Mae'n rhaid i ni fynd yno," meddai Saul wrth ei ffrindiau, "mae'n rhaid i ni roi pawb sy'n credu yn Iesu yn y carchar."

Fel yr oedd ef a'i ffrindiau yn cerdded ar hyd y ffordd i gyfeiriad Damascus, dyma olau llachar yn disgleirio. Syrthiodd Saul ac ni fedrai weld dim. Roedd yn ddall. Roedd y goleuni llachar wedi anafu ei lygaid. Yn sydyn clywodd lais yn galw, "Saul, Saul."

"Pwy sydd yna?" gofynnodd Saul.

"Iesu ydw i," oedd yr ateb. "Rwyt ti'n dal i ddweud wrth y bobl nad ydw i yn Fab Duw. Saul, rwyt ti'n anghywir. Mi rydw i yn fyw. Cod ar dy draed a dos i mewn i ddinas Damascus. Aros yno. Yna fe gei di wybod beth i'w wneud."

Roedd Saul wedi rhyfeddu. Roedd y golau llachar wedi diflannu. Roedd pobman yn dywyll fel y fagddu. Roedd Saul yn ddall. Doedd o'n gallu gwneud dim. Roedd yn rhaid i'w ffrindiau ei helpu i godi ar ei draed.

Daeth i mewn i ddinas Damascus. Arhosodd yng nghartref un o'r bobl gyfoethog. Doedd o ddim eisiau bwyd na diod. Ymhen rhai dyddiau daeth gŵr o'r enw Ananias i weld Saul. Duw oedd wedi ei

anfon. Dywedodd Duw wrth Ananias,

"Dos i weld gŵr o'r enw Saul. Mae o'n aros yn y ddinas."

"Fedra i ddim," atebodd Ananias, "mae'n ddyn peryglus iawn. Mae o wedi dod i Ddamascus i ladd y bobl."

Dywedodd Duw yr hanes i gyd wrth Ananias, "Ti, felly, fydd yn rhoi ei olwg yn ôl i Saul. Paid â phoeni, mae gen i waith arbennig i Saul. Mi fydd hefyd yn newid ei enw o Saul i Paul. Bydd yn sôn amdana i wrth lawer o bobl."

Yn araf, cerddodd Ananias ar hyd y strydoedd i'r tŷ lle'r oedd Saul yn aros. Curodd ar y drws. Daeth un o'r morynion i'r drws. Dywedodd Ananias ei stori wrthi. Aeth hithau ag ef i'r ystafell lle roedd Saul yn eistedd.

"Mae Duw wedi f'anfon yma i roi dy olwg yn ôl i ti," meddai Ananias. Cododd Paul ar ei draed ac yn sydyn roedd yn gweld. Roedd yn gwybod yn sicr bod Iesu yn Fab Duw.

"Mae gan Dduw waith arbennig iawn i ti. Mi fyddi di yn sôn am Iesu wrth bobl tu allan i'r wlad hon."

Roedd geiriau Ananias wedi dychryn Paul. Pan ddaeth allan i'r stryd roedd y bobl wedi synnu. Roedd Paul yn ddyn gwahanol iawn. Roedd ei hen ffrindiau mewn penbleth.

"Sut y gall Saul wneud hyn? Sut y gall ddilyn Iesu?" Ond roedd yn wir, roedd Paul, yn barod, yn dechrau sôn am Iesu wrth bawb yn y ddinas.

"Saul, Saul, pam yr wyt yn fy erlid i?"
Actau 9:4

"Gras ein Harglwydd Iesu Grist
a chariad Duw
a chymdeithas yr Ysbryd Glân,
fyddo gyda chwi oll."
Amen.
(Gweddi Paul, 2 Corinthiaid 13:14)

Fyddech chi'n dweud fod Duw yn dewis pobl ar gyfer gwaith "arbennig"?

Paul: y ganrif gyntaf